

# Ffurflen Apêl Budd-dal Tai

Os ydych yn meddwl bod eich Budd-dal  
Tai'n anghywir, llenwch y ffurflen hon ac ewch  
â hi neu anfonwch hi i'r cyfeiriad canlynol:  
Yr Is-adran Budd-daliadau, Y Ganolfan Ddinesig,  
Abertawe SA1 3SN

Adran y Gwasanaethau  
Ariannol  
Canolfan Ddinesig  
Heol Ystumllwynarth  
Abertawe  
SA1 3SN  
www.abertawe.gov.uk  
01792 635353

This form is available in English from the Civic Centre  
Mae'r ffurflen hon hefyd ar gael mewn print bras o'r Ganolfan Ddinesig

## Amdanoch Chi

Teitl	<input type="text" value="Mr/Mrs/Miss/Ms"/>	
Eich cyfenw	<input type="text"/>	
Eich enwau eraill	<input type="text"/>	
Eich cyfeiriad	<input type="text"/>	
	<input type="text"/>	
	<input type="text" value="Côd Post"/>	
Rhif ffôn yn ystod y dydd	<input type="text" value="Côd"/>	<input type="text" value="Rhif"/>
Cyfeiriad e-bost	<input type="text"/>	
Eich dyddiad geni	<input type="text" value="/ /"/>	
Rhif Yswiriant Gwladol (YG)	<input type="text"/>	<input type="text"/>
	<input type="text"/>	<input type="text"/>
	<input type="text"/>	<input type="text"/>

*Gellir cael hyn o'ch cerdyn rhif YG, slipiau tâl, papurau  
treth neu lythyrau oddi wrth yr adran nawdd cymdeithasol*

**Os mai chi yw'r landlord, yr asiant neu'r person a benodwyd ar gyfer yr hawliwr, nodwch  
fanylion yr hawliwr isod.**

Teitl	<input type="text" value="Mr/Mrs/Miss/Ms"/>
Enw'r Hawliwr	<input type="text"/>
Cyfeiriad yr hawliwr pan oedd yn denant i chi.	<input type="text"/>
	<input type="text"/>
	<input type="text" value="Côd Post"/>

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg. Caiff unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg ei hateb yn  
y Gymraeg ac ni fydd hyn yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh. Correspondence received in Welsh will be answered in  
Welsh and this will not lead to a delay.

## Ynglŷn â'r penderfyniad

Ticiwch pa benderfyniad(au) nad ydych yn eu deall neu rydych yn anghytuno â nhw:

- Budd-dâl Tai
- Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn
- Prisiadau Swyddog Rhenti

Y dyddiad ar frig eich llythyr penderfyniad.

/ /

Rhif Hawlio/Cyfeirnod ar y llythyr.

/ /

Os na fydd y ffurflen hon yn cyrraedd yr Is-adran Budd-daliadau o fewn mis calendr i ddyddiad y penderfyniad a roddwyd uchod, a oedd amgylchiadau arbennig a wnaeth eich atal rhag gofyn am y penderfyniad o fewn y mis calendr hwnnw? Os felly, rhowch fanylion:

---

---

## Esboniad

Hoffech chi i ni roi rhagor o wybodaeth i chi am y penderfyniad?

- Hoffwn
- Na hoffwn

Os hoffech, ticiwch sut yr hoffech i ni roi'r wybodaeth i chi yn un o'r blychau isod:

- Ffôn. *Nodwch unrhyw amser anaddas isod.*
- Cyfweiliad Swyddfa. *Byddwn yn eich ffonio neu'n ysgrifennu atoch i drefnu amser.*
- Llythyr/Datganiad o Resymau

Os hoffech gael cyfweiliad ond nid ydych yn gallu dod i'r swyddfa oherwydd afiechyd, efallai y byddwn yn gallu ymweld â chi gartref neu wneud trefniadau eraill i esbonio'r penderfyniad. Os mai dyma yw'r achos, dywedwch wrthym pam nad ydych yn gallu dod i'r swyddfa.

---

I'n helpu gyda'ch ymholiad, dywedwch wrthym beth yr hoffech i ni ei esbonio.

---

## Os nad oes angen esboniad arnoch ond rydych yn anghytuno â'r penderfyniad

Ydych chi wedi trefnu i rywun eich helpu gyda'ch anghydfod/apêl?

Nac ydw  Ydw (Rhowch ei enw llawn a'i gyfeiriad)

Ei enw llawn

Ei gyfeiriad

Côd Post

Llofnodwch y blwch hwn i awdurdodi'r person hwn i weithredu ar eich rhan:

## Eich preifatrwydd

**Cyngor Abertawe yw'r rheolwr data ar gyfer yr wybodaeth bersonol rydych chi'n ei darparu ar y ffurflen hon. Defnyddir eich gwybodaeth wrth i ni arfer ein hawdurdod swyddogol ac ni chaiff ei defnyddio at unrhyw ddiben arall. Ni fyddwn yn rhannu'ch data ag unrhyw drydydd parti oni bai fod gofyn i ni neu y caniateir i ni wneud hynny yn ôl gyfraith. Eglurir hyn yn fanylach ar-lein yn [www.abertawe.gov.uk/GwybodaethBersonolRefeniwaBudd-daliadau](http://www.abertawe.gov.uk/GwybodaethBersonolRefeniwaBudd-daliadau).**

**Mae cyfraith diogelu data'n disgrifio'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data fel un sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg gyhoeddus. I gael rhagor o wybodaeth am sut mae Cyngor Abertawe yn defnyddio'ch data personol, gan gynnwys eich hawliau fel gwrthrych y data, darllenwch ein Hysbysiad Preifatrwydd Corfforaethol yn [www.abertawe.gov.uk/hysbysiadpreifatrwydd](http://www.abertawe.gov.uk/hysbysiadpreifatrwydd).**

## Datganiad

Darllenwch y datganiad hwn yn ofalus cyn i chi ei lofnodi a'i ddyddio. Rwy'n datgan fel a ganlyn:

- Mae'r wybodaeth rwyf wedi'i rhoi ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn hyd y gwn i.
- Os nad oeddwn yn gallu ateb cwestiwn oherwydd fy mod yn aros am wybodaeth, rwyf wedi nodi hyn ar y ffurflen a byddaf yn anfon y manylion atoch ar ôl i fi eu derbyn.
- Rwy'n deall y bydd y cyngor yn croeswiro'r wybodaeth rwyf wedi'i rhoi gydag is-adrannau eraill yn y cyngor, y Gwasanaeth Swyddogion Rhent, a chynghorau ac awdurdodau budd-dal eraill.
- Rwy'n deall efallai y bydd gofyn i mi gyflwyno rhagor o wybodaeth bersonol i gefnogi fy nghais. Bydd yr wybodaeth hon yn destun yr un rheolau preifatrwydd a gynhwysir yn "Eich Preifatrwydd".
- Rwy'n deall y gallwn gael fy erlyn os rwy'n rhoi gwybodaeth sy'n anghywir neu'n anghyflawn neu'n peidio â rhoi gwybod am unrhyw newidiadau, yn brydlon neu beidio, a allai effeithio ar fy Mudd-dal Tai.
- Rwy'n deall y bydd rhaid i fi ad-dalu arian os caiff gormod o Fudd-dal Tai ei dalu o ganlyniad i newidiadau yn y manylion a roddir yn y ffurflen hon.
- Rwy'n deall y bydd y cyngor yn defnyddio'r wybodaeth a'r dystiolaeth rwyf wedi'u darparu i ystyried fy apêl, ac y gellir defnyddio'r manylion hyn ar gyfer unrhyw ostyngiad, gwasanaeth neu fudd-dal lleol y mae'r cyngor yn ei weinyddu. Gall y cyngor roi gwybodaeth i sefydliadau llywodraeth eraill neu gyrff allanol os yw'r gyfraith yn caniatáu hyn.
- Os caiff yr wybodaeth yn y ffurflen hon ei defnyddio ar gyfer Asesiad Ariannol Gofal Cymdeithasol, rwy'n cytuno i dalu fy nghyfraniad, gan gynnwys unrhyw swm ôl-ddyddiedig a ddaw yn ddyledus yn dilyn newid yn fy amgylchiadau.
- Rwyf wedi darllen a deall "Eich Dyletswyddau" ac "Eich Preifatrwydd"
- Rwyf wedi darllen a deall y datganiad hwn.

## Eich llofnod

Llofnod:

Dyddiad:

*Os oes rhywun wedi ei benodi'n swyddogol i weithredu ar eich rhan neu os oes gan rywun yr awdurdod i weithredu ar eich cyfer, dylent lofnodi yma.*

## Beth i'w wneud nawr

- Gwnewch yn siŵr eich bod wedi nodi isod pam nad ydych yn cytuno â'r penderfyniad.
- Rhowch y ffurflen hon i ni neu ei hanfon atom.
- Cofiwch, rhaid i'ch apêl gyrraedd ein swyddfa o fewn un mis calendr i'r dyddiad ar frig y llythyr sy'n eich hysbysu am ein penderfyniad.

## Pam rydych yn anghytuno â'r penderfyniad

- Defnyddiwch y lle hwn i ddweud pam nad ydych yn cytuno â'r penderfyniad.
- Rhaid i chi ddweud pam rydych yn credu bod y penderfyniad yn anghywir.
- Os ydych am apelio at Dribiwnlys Annibynnol o'r cychwyn cyntaf, ticiwch y blwch hwn .

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

- Os oes angen mwy o le arnoch, defnyddiwch ddalen arall o bapur. Cofiwch nodi eich enw a'ch cyfeiriad ar unrhyw ddalennau ychwanegol o bapur.
- Sicrhewch eich bod wedi llenwi pob rhan o'r ffurflen hon a'i llofnodi.

**Ewch â'r ffurflen hon neu ei hanfon i'r Is-adran Budd-daliadau, Canolfan Ddinesig, Abertawe SA1 3SN. Neu, ar ôl ei llenwi, gallwch ei sganio a'i hanfon drwy e-bost i [budd-daliadau@abertawe.gov.uk](mailto:budd-daliadau@abertawe.gov.uk)**